# Diweddariad i gyflenwyr sy'n ymwneud â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl

Gorffennaf 2022

Roeddem am rannu diweddariad â chi am y broses o gaffael cyflenwadau a gwasanaethau'n ymwneud â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Efallai eich bod yn gwybod bod cam cyntaf yr ymarfer caffael wedi dod i ben erbyn hyn a bod yr holl gyflenwyr posibl a gyflwynodd gynigion wedi cael eu hysbysu ynghylch y canlyniad. Mae'r ail gam, sef y Gwahoddiad i Dendro, wedi dechrau ac mae wyth cynigydd wedi symud ymlaen i'r cam hwnnw ym mhob lot. Mae'r fframwaith contractiol newydd yn cynnwys pedair lot ddaearyddol, gyda chyflenwyr yn darparu asesiadau o anghenion, technoleg gynorthwyol, hyfforddiant ynghylch technoleg gynorthwyol a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig ym mhob lot. Mae cymysgedd o gyflenwyr presennol a chyflenwyr newydd yn symud ymlaen i'r ail gam, ac maent yn cynnwys rhai cynigion gan gonsortia. Yn ystod yr ail gam, gall un cyflenwr ennill uchafswm o ddwy lot.

Mae'r cynigwyr sydd wedi symud ymlaen i'r ail gam wedi cael eu gwahodd i ddigwyddiad Diwrnod i Gynigwyr. Ar ôl y digwyddiad hwnnw, disgwylir i gynigion yn dilyn Gwahoddiad i Dendro gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Awst ac y bydd cyflwyniadau'n dilyn wedyn ym mis Medi. O lynu wrth yr amserlenni hyn, rydym yn disgwyl y bydd contractau yn eu lle ym mis Rhagfyr 2022 ac y bydd y fframwaith newydd yn cael ei roi ar waith yn raddol yn 2023. Byddwn mewn sefyllfa i ddarparu diweddariad pellach am yr amserlen i gyflenwyr yn nes ymlaen eleni.

Ar ran yr Adran Addysg ac Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru, hoffai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr atgoffa cyflenwyr ein bod yn disgwyl, tra bydd yr ymarfer caffael yn mynd rhagddo ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau'n ymwneud â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, y bydd yr holl gwmnïau sydd wedi cael eu talu ymlaen llaw am wasanaethau yn parhau i gynorthwyo myfyrwyr yn ystod y cyfnod llawn, sef fel rheol y cyfnod y disgwylir i gwrs y myfyriwr bara.

Caiff gwasanaethau, gan gynnwys costau warantî ac yswiriant, eu talu o hawl myfyrwyr i grant Lwfans Myfyrwyr Anabl, ac oherwydd ei fod yn arian cyhoeddus rhaid iddo gael ei ddefnyddio at ei ddiben arfaethedig.

Gan gofio hynny, rydym yn disgwyl i fyfyrwyr gael copi o bob cytundeb warantî ac yswiriant. Os nad yw'r cytundebau hynny wedi'u rhannu â myfyrwyr, dylech sicrhau eu bod yn cael copïau cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os oes unrhyw gyflenwr yn poeni na all gyflenwi'r gwasanaethau y mae wedi'i dalu i'w darparu, dylai gysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar unwaith.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am barhau i gynorthwyo myfyrwyr sy'n cael Lwfans Myfyrwyr Anabl a diolch i chi am eich amynedd wrth i ni symud i'r fframwaith newydd o gyflenwyr.